**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i Gyflwr y Ffyrdd yng Nghymru**

---

**Nodir Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad isod:**

**<u>Argymhelliad 1</u>**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**
Dylai Llywodraeth Cymru werthuso a ellid defnyddio apiau symudol fel Street Bump Boston i wella ansawdd data mewn amser real sydd ar gael ar gyfer rhwydwaith ffyrdd Cymru

**Ymateb: Derbyn**

Mae apiau symudol yn dod yn fwyfwy cyffredin a byddai hwn yn offeryn defnyddiol arall i gynorthwyo'r broses o gynllunio gwaith cynnal a chadw. Cydnabyddir ar draws y diwydiant nad yw arolygon cyfredol yn gweithredu dull effeithiol mewn amser real. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn gweithredu rhwydwaith System Gwybodaeth Ddaearyddol y gall Asiantau gael mynediad iddo ac amlygu materion yn ymwneud â chyflwr a llywio penderfyniadau am waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio.

**Goblygiadau Ariannol:** Nid oes angen unrhyw gyllid ychwanegol heblaw'r cyllid hwnnw a nodwyd eisoes yn y gyllideb gyfredol.

**<u>Argymhelliad 2</u>**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**
Dylid cyhoeddi a chasglu Cynlluniau Rheoli Asedau Priffyrdd (ar gyfer awdurdodau lleol ac asiantaethau cefnffyrdd) mewn un lle i sicrhau bod tryloywder ac atebolrwydd cyhoeddus ynglŷn â'r broses.

**Ymateb: Derbyn – ar gyfer Rhwydwaith Cefnffyrdd a Thraffyrdd Llywodraeth Cymru yn unig ar hyn o bryd**

Mae Llywodraeth Cymru yn cwblhau'r Polisi a'r Strategaeth rheoli Asedau ar hyn o bryd yn seiliedig ar yr arfer gorau cyfredol (ISO 55001:2014). Byddai cynlluniau rheoli asedau yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio systemau rheoli asedau unigol a fyddai'n wahanol ar gyfer pob awdurdod lleol. Gellid cynhyrchu adroddiadau cryno ar allbwn mewn fformat cyffredin a'u storio yn ganolog. Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod y ffordd orau o gymharu perfformiad asedau gydag awdurdodau lleol ar ôl cwblhau'r strategaeth a'r polisi.

**Goblygiadau Ariannol:** Nid oes angen unrhyw gyllid ychwanegol heblaw'r cyllid hwnnw a nodwyd eisoes yn y gyllideb gyfredol.

**Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**
Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y ffordd orau y gallai ysgogi awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn cynnal a chadw. Os nad yw arian ychwanegol ar raddfa o £50m y flwyddyn yn bosibl, gallai hyn gynnwys dull cyllido cyfatebol lle mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid ar ben gwariant ychwanegol gan awdurdodau lleol.

**Ymateb: Gwrthod**

Dylai awdurdodau lleol benderfynu sut maent yn dyrannu'r Grant Cymorth Cyfalaf ar gyfer cynnal a chadw a'r grant cyfalaf heb ei neilltuo ar gyfer gwaith adfer neu ddarpariaeth newydd. Dyrannwyd £32.5m o grantiau penodol ychwanegol yn 17/18 i awdurdodau priffyrdd i wella cyflwr y rhwydwaith ffyrdd a bydd £60m pellach ar gael dros gyfnod o dair blynedd i gynorthwyo'r awdurdodau i wella cyflwr eu hasedau ymhellach.

**Goblygiadau Ariannol:** Nid oes goblygiad y tu hwnt i'r gyllideb gyfredol a neilltuwyd.

**Argymhelliad 4**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**
Os gall Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid pum mlynedd i Trafnidiaeth Cymru, yna gall - a dylai - wneud yr un peth i awdurdodau lleol.

**Ymateb: Gwrthod**

Y gyllideb ddrafft 2019-20 a gyhoeddwyd ym mis Hydref, yw'r drydedd gyllideb y Pumed Cynulliad ac yn dod o fewn y flwyddyn olaf o setliad Adolygiad o Wariant presennol Llywodraeth y DU, sy'n gosod cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod o 2016-17 i 2019-20 a'r gyllideb cyfalaf tan 2020-21.

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud bydd yn cynnal adolygiad o wariant newydd yn 2019. Nid ydym yn gwybod eto beth fydd amseriad yr adolygiad o wariant, y cyfnod y bydd yn pennu cyllidebau ac effaith hyn ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod, ac yn cydymdeimlo â, y galwadau oddi wrth ein partneriaid sector cyhoeddus a busnesau ar gyfer cyllidebu dros gyfnod hwy lle y bo'n bosibl er mwyn cefnogi blaengynllunio ariannol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'n huchelgais i gyhoeddi cynlluniau am fwy na 12 mis fod yn gytbwys â'n gallu i ddarparu tybiaethau cynllunio realistig a synhwyrol. Mae'r ansicrwydd cyllidol parhaus; effaith polisi llymder Llywodraeth y DU a'r ansicrwydd sylweddol ynghylch siâp a natur y trafodaethau ar gyfer y fargen ddyfodol gyda'r UE, yn golygu yr ydym wedi cymryd y penderfyniad i gyhoeddi cynlluniau refeniw ar gyfer 2019-20 yn unig,

gyda chynlluniau cyfalaf ar gyfer y ddwy flynedd nesaf - 2019-20 a 2020-21 (y cyfnod y mae gennym setliad pendant).

Er bod y cyllid a ddarperir i lywodraeth leol, drwy'r setliad heb ei neilltuo Llywodraeth Cymru, yn elfen bwysig ar gyfer gosod cyllideb llywodraeth leol, nid yw'n unig ffynhonnell. Mae awdurdodau lleol yn derbyn arian gan nifer o ffynonellau eraill gan gynnwys grantiau gan gyrff eraill, treth gyngor ac incwm o ffioedd a thaliadau. Mae rhaid i awdurdodau lleol ystyried holl ffynonellau cyllid sydd ar gael iddynt ochr yn ochr â eu cynigion ar gyfer darparu gwasanaethau wrth baratoi cynlluniau ariannol tymor byr a chanolig. Mae'r fath o gynlluniau yn anochel angen adlewyrchu amrywiaeth o senarios ar gyfer incwm a gwariant a'r amrywiadau yn y galw am y gwasanaeth a darpariaeth.

I gefnogi cynllunio ariannol yn y dyfodol, mae adroddiad y Prif Economegydd, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â drafft y gyllideb 2019-20, yn rhoi dadansoddiad o amcanestyniadau ariannol tymor canolig, a fydd yn helpu i lywio senarios ar gyfer gwariant yn y dyfodol yng Nghymru.

Wrth ystyried cyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol i ddarparu gwybodaeth fynegol ar gael i lywio blaengynllunio ariannol. Ein nod bob amser yw darparu tymor hwy o gyllidebau lle y bo'n bosibl.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim

**<u>Argymhelliad 5</u>**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**
Dylai Llywodraeth Cymru gynnull grŵp rhanddeiliaid tebyg i Grŵp Effeithlonrwydd Palmentydd Highways England i gynghori ar y deunyddiau a'r prosesau mwyaf effeithiol.

**Ymateb: Derbyn**

Dechreuodd gwaith yn 2017 gan arbenigwyr Palmentydd Llywodraeth Cymru i wella deunyddiau a phrosesau a ddefnyddir ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd ar y Rhwydwaith Strategol. Cynhaliwyd gwaith treialu gyda chanlyniadau cadarnhaol hyd yma. Mae cydweithio ag ymarferwyr amrywiol ledled y DU gan gynnwys Transport Scotland a Highways England a hefyd contractwyr lleol wedi arwain at ddynodiad newydd ar gyfer gosod wyneb ffyrdd sy'n addas i ddiwallu heriau sydd ynghlwm wrth wydnwch, cynaliadwyedd ac effeithiau amgylcheddol newid hinsawdd. Mae arbenigwyr Palmentydd Llywodraeth Cymru yn mynychu Bwrdd Prosiect Technegol y DU ar hyn o bryd a gweithgorau cenedlaethol amrywiol ar gyfer disgyblaethau cynnal a chadw priffyrdd.

**Goblygiadau Ariannol:** Nid oes angen unrhyw gyllid ychwanegol heblaw'r cyllid hwnnw a nodwyd eisoes yn y gyllideb gyfredol.

**<u>Argymhelliad 6</u>**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**
Dylai Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol sicrhau y rhoddir blaenoriaeth a chyllid i waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio dros y tymor hir sy'n gost-effeithiol er mwyn lleihau atgyweiriadau tymor byr mwy costus.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mwy o arian mewn dulliau ataliol o gynnal a chadw, a fydd yn helpu i atal dirywio wyneb ffyrdd cyn bod angen ymyriadau mawr. Yn unol â hybu wyneb mwy gwydn ar gyfer ffyrdd, mae gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio bellach yn cael ei ddylanwadu'n fawr gan gynllunio tymor hwy ac mae cynllun cynnal a chadw 5 mlynedd bellach yn cael ei ddatblygu. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio galluoedd modelu dirywio a ddefnyddir i ragweld gofynion o ran y cyllid sydd ei angen ar gyfer gwaith cynnal a chadw.

**Goblygiadau Ariannol:** Nid oes angen unrhyw gyllid ychwanegol heblaw'r cyllid hwnnw a nodwyd eisoes yn y gyllideb gyfredol.

**<u>Argymhelliad 7</u>**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**
Pan fo daeareg neu ddeddfau ffiseg yn atal cydymffurfiaeth lawn â'r safonau a bennwyd ar gyfer llwybrau teithio llesol, yna dylai unrhyw benderfyniad i ddiwygio cynigion gael ei wneud mewn cydweithrediad llawn â defnyddwyr.

**Ymateb: Derbyn**

Caiff llwybrau Teithio Llesol eu nodi drwy broses ymgynghori gan Awdurdodau Lleol. Os bydd y cyfyngiadau yn ymwneud â chyfyngiadau lleol yn unig, mae'n debygol y byddai'r llwybr yn cael ei gymeradwyo oherwydd y byddai'r budd cyffredinol i ddefnyddwyr yn gorbwyso unrhyw fân gyfyngiadau. Fodd bynnag, os byddai'r cyfyngiadau yn rhai a fyddai'n peryglu'r llwybr, byddai Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid; Sustrans a Swyddogion Beicio ALl i ddod o hyd i lwybrau amgen.

**Goblygiadau Ariannol**: Lle mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid byddai'n sicrhau y byddai'r broses arfarnu yn ystyried gwerth am arian a fforddiadwyedd.

**Argymhelliad 8**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**
Dylai rhifynnau o Gynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol gynnwys dynodiadau cliriach o flaenoriaethau ac amserlenni, gan gynnwys manylion lle mae amserlenni yn newid a pham, y cam datblygu y mae'r prosiect wedi'i gyrraedd a'r cyllid sydd ar gael. Dylai Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru argymell blaenoriaethau.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn edrych ar orsaf amser cynllunio cyllideb cymharol fyr o 5 mlynedd. Nid swyddogaeth y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol yw blaenoriaethu buddsoddiadau ym maes Trafnidiaeth o fewn amserlen Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol. Mae gan y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru cylch gorchwyl clir i edrych ar orwel cynllunio o 5-30 mlynedd. Mae fformat cyfredol y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn nodi'r prosiectau/ymyriadau a'r amserlen. Mae diweddariadau o'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn adrodd ar gynnydd. Bydd Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, yn adolygu a ellid egluro'r camau datblygu ymhellach.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim goblygiadau ariannol.

**Argymhelliad 9**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**
Dylai'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol gael ei ddefnyddio pan nad oes model ariannu arall yn hyfyw, a dim ond lle mae prosiectau gwerth £200m+. Lle y'i defnyddir, dylid gwerthuso prosiectau gan ddefnyddio meini prawf clir, a dylai'r awdurdod arweiniol ddefnyddio arbenigedd caffael a chyflawni a ddatblygwyd mewn cynlluniau blaenorol sydd wedi defnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r llywodraeth wedi nodi'n glir taw dim ond pan fydd ffurfiau eraill o gyfalaf wedi dod i ben y caiff y Model Buddsoddi Cydfuddiannol ei ddefnyddio.

Mae ein cyllidebau cyfalaf wedi cael eu gostwng gan 10% ers 2010-11 o ganlyniad i raglen cyni Llywodraeth y DU, sy'n golygu ein bod wedi gorfod dod o hyd i ffynonellau ariannu amgen i fodloni ein cynlluniau seilwaith uchelgeisiol. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn glir y byddwn bob amser yn defnyddio'r ffynonellau cyfalaf rhatach yn gyntaf i ariannu ein buddsoddiadau mewn perthynas â seilwaith cyhoeddus.

Caiff cyfalaf confensiynol ei ddefnyddio'n gyntaf bob amser i ariannu seilwaith cyhoeddus. Nesaf, caiff cyfalaf a ddaw o gronfeydd Ewropeaidd ei ddefnyddio, Yna, caiff pwerau benthyg cyfalaf newydd, sy'n cynnwys bondiau llywodraeth, eu

defnyddio. Mae Cyllideb ddrafft 2019-20 yn nodi y bydd y llywodraeth yn defnyddio'r benthyciadau cyfalaf sydd ar gael i ni dros y cyfnod cyllidebol nesaf.

Lle mae swm y cyfalaf a godwyd yn annigonol i ddiwallu anghenion buddsoddi, ystyrir defnyddio pwerau benthyg cyrff eraill yng Nghymru, gan gynnwys rhai awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.

Mewn sefyllfaoedd lle mae anghenion buddsoddi mawr yn parhau, mae'r llywodraeth wedi dylunio Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Dim ond i ariannu prosiectau neu raglenni sydd â chyfalaf digonol a fydd yn denu diddordeb arianwyr ac sy'n dangos gwerth am arian i'r trethdalwr y caiff y Model Buddsoddi Cydfuddiannol ei ddefnyddio. Tra bod prosiectau neu raglenni o'r fath yn debygol o fod o'r maint a awgrymir yn yr argymhelliad uchod, efallai taw nid dyma fydd yr achos bob tro.

Mae'r llywodraeth wedi mabwysiadu prosesau caffael a chontractau safonol ac mae bellach yn orfodol i ddefnyddio'r Model Pum Ffordd a achredwyd yn rhyngwladol i gynnal arfarniad o fuddsoddiad. Yn ogystal, defnyddir sicrwydd prosiectau nid yn unig ar adolygiadau Porth llywodraeth ond hefyd defnyddir cynnyrch sicrwydd cartref: gwiriadau Pwynt Cymeradwyo Masnachol (CAP). Sefydlwyd prosesau i sicrhau bod gwersi a ddysgwyd o'r Pwyntiau Cymeradwyo Masnachol yn cael eu hadlewyrchu ar ffurf argymhellion a chanllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer prosiectau tîm.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

## Argymhelliad 10

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**
Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod canolfan arbenigedd ar gyfer y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn datblygu a fydd yn rhoi cymorth ac arweiniad i awdurdodau cyhoeddus weithredu prosesau caffael cymhleth (fel y Model Buddsoddi Cydfuddiannol) a sicrhau gwerth am arian.

**Ymateb: Derbyn (mewn egwyddor)**

Mae'r llywodraeth yn cydnabod bod meddu ar y gallu i ddatblygu a chyflawni cynlluniau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn hanfodol i sicrhau gwerth am arian dros fywyd prosiectau a rhaglenni o'r fath.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gydgrynhoi'r sgiliau a'r profiad sydd ar gael ar hyn o bryd i adrannau – ac i ddatblygu'r gallu hwnnw – mewn swyddfa rhaglen y Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Mae'r gwaith datblygu yn mynd rhagddo o dan oruchwyliaeth grŵp craffu Model Buddsoddi Cydfuddiannol y swyddogion, gyda'r bwriad o gytuno ar ffordd glir ymlaen erbyn y gwanwyn 2019.

**Goblygiadau Ariannol:** Bydd datblygu arbenigedd ymhellach o ran y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn arwain at oblygiadau ariannol, yn bennaf yn nhermau costau staff. Bydd angen ymgorffori'r costau hyn i gyllidebau'r dyfodol ar yr adeg briodol.

**<u>Argymhelliad 11</u>**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**
Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol o Werthusiadau Prosiectau ar ôl Cychwyn diweddar yng Nghymru i asesu a yw ffyrdd yng Nghymru wedi cyflawni'r manteision economaidd a ragwelid pan gytunwyd ar y cynlluniau

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r offeryn Arfarnu Trafnidiaeth Cymru eisoes yn cynnwys yr angen i nodi'r manteision wrth wneud y penderfyniad ynghylch buddsoddi, yn ystod y cyfnod datblygu ac ar ôl datblygu. Unwaith y bydd Adroddiadau Effaith digonol ar gael, bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad o'r manteision sydd ynghlwm wrth fuddsoddi yn y rhwydwaith ffyrdd.

**Goblygiadau Ariannol:** Ariennir y Comisiwn drwy'r gyllideb gyfredol.

**<u>Argymhelliad 12</u>**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**
Dylai'r strategaeth arfaethedig, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, bennu blaenoriaeth glir ar gyfer cynnal y rhwydwaith ffyrdd presennol, prif-ffrydio ac uwchraddio'r seilwaith teithio llesol, a blaenoriaethu mynediad, yn hytrach nag adeiladu ffyrdd newydd

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn pennu fframwaith y polisi. Er y bydd yn datblygu polisïau yn y meysydd a nodwyd yn yr argymhelliad, y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol sy'n pennu'r rhaglen fuddsoddi.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol.

**<u>Argymhelliad 13</u>**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**
Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cymorth ar gael i sicrhau bod yr Arweiniad newydd ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru yn cael ei ddeall yn gyffredinol, ac yn cael ei roi ar waith gan gyrff cyhoeddus, a chontractwyr sy'n gweithio ar eu rhan

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio gyda swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu rhaglen o sesiynau cymorth i sicrhau bod y pecyn cymorth yn cael ei ddeall a'i fireinio lle y bo angen.

**Goblygiadau Ariannol:** Nid oes angen unrhyw gyllid ychwanegol heblaw'r cyllid hwnnw a nodwyd eisoes yn y gyllideb gyfredol.

**Argymhelliad 14**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**
Mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau y dylai pob prosiect ffordd newydd fod yn agored i gael ei herio er mwyn sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael ei chymhwyso'n drwyadl yn y cynllun. Os yw'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru yn cael ei ddilyn, dylai hyn ddigwydd yn ystod pob cam. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio detholiad bach o brosiectau i asesu i ba raddau y mae hyn yn digwydd, ac adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ymhen 12 mis.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Arfarnu Trafnidiaeth Cymru 2017 yn cynnwys yr arferion gorau ar gyfer datblygu, arfarnu a gwerthuso ymyriadau trafnidiaeth arfaethedig yng Nghymru. Mae'r pecyn cymorth wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn manteisio i'r eithaf ar lesiant Cymru, fel y nodwyd yn Nedd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac i gyflawni gweledigaeth y Ddeddf o'r Gymru rydym ei heisiau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ymhen 12 mis ar y cynnydd a wneir yn erbyn cynlluniau ffyrdd newydd a ddatblygwyd ers i'r Arfarnu Trafnidiaeth Cymru 2017 ddod i rym.

**Goblygiadau Ariannol:** Nid oes angen unrhyw gyllid ychwanegol heblaw'r cyllid hwnnw a nodwyd eisoes yn y gyllideb gyfredol.